


# Credyd Cynhwysol – rheoli eich arian yng Nghymru a Lloegr

Gall y canllaw hwn eich helpu i wneud y canlynol:

- Deall sut mae Credyd Cynhwysol yn gweithio
- Symud i Gredyd Cynhwysol o'ch hen fudd-daliadau
- Llunio cyllideb a gostwng eich gwariant
- Canfod sut mae gweithio'n effeithio ar eich taliad Credyd Cynhwysol
- Delio â'ch costau tai

Helpwr Arian | UC Universal Credit | HM Government

**Gwneud eich dewisiadau pensiwn ac arian yn gliriach**

Waeth beth yw eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gefnogaeth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i wneud hyn:

- clirio eich dyledion
- deall eich opsiynau pensiwn
- cynllunio ar gyfer ymddeol
- gostwng eich gwariant a chynyddu cynilion
- llywio drwy ddigwyddiadau bywyd fel colli swydd, diwedd perthynas neu brofedigaeth
- cynllunio ymlaen llaw ar gyfer pryniannau mawr
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: **moneyhelper.org.uk/cy**

**Arweiniad diduedd am ddim**
ar y we | ar y ffôn

Darparwyd gan

Gwasanaeth Arian a Phensiynau

# Yma i'ch helpu chi

## Cynnwys


1. Sut mae Credyd Cynhwysol yn gweithio? 4

2. Symud i Gredyd Cynhwysol o'ch budd-daliadau presennol 5

3. Ymgeisio am Gredyd Cynhwysol 7

4. Credyd Cynhwysol os ydych yn sâl neu'n anabl 8

5. Credyd Cynhwysol os oes gennych blant 9

6. Defnyddio gwasanaeth Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth 11

7. Blaendaliadau Credyd Cynhwysol 12

8. Sgamiau blaendaliadau Credyd Cynhwysol 13

9. Llunio cyllideb 14

10. Cynllunydd cyllideb 14

11. Sut i gynilo arian 15

12. Cael y cyfrif banc cywir 16

13. Talu eich costau tai 17

14. Os byddwch chi'n mynd i ôl-ddyledion rhent 19

15. Credyd Cynhwysol, gweithio, cyllidebu a chynilo 20

16. Os ydych yn hunangyflogedig 21

17. Mynd ar-lein 22

18. Cysylltiadau defnyddiol 23

# 1. Sut mae Credyd Cynhwysol yn gweithio?

**Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal i'ch cefnogi chi os ydych ar incwm isel, p'un a ydych chi mewn swydd ai peidio.**

Efallai y byddwch yn gallu hawlio os:

- ydych yn 18 oed neu'n hŷn (mae rhai eithriadau os ydych yn 16 neu'n 17)
- ydych chi neu eich partner yn iau nag oed Pensiwn y Wladwriaeth
- ydych chi neu eich partner neu ŵr/gwraig ar incwm isel a llai na £16,000 gennych mewn cynilion
- ydych yn byw yn y DU.

Os ydych yn byw gyda rhywun fel cwpl, bydd yn rhaid i chi hawlio ar y cyd (gwelwch dudalen 7).

### Faint gewch chi

Mae Credyd Cynhwysol yn cynnwys lwfans sylfaenol a gwahanol elfennau ar gyfer pethau fel costau tai. magu plant, gofalu neu salwch, ac anabledd

Gall y maint a gewch chi mewn Credyd Cynhwysol fynd i fyny neu i lawr yn dibynnu pa incwm a gewch chi o'r pethau hyn:

- gweithio
- pensiwn
- budd-daliadau eraill
- cynilion a chyfalaf dros £6,000.

Mae ein cyfrifiannell budd-daliadau'n ffordd hawdd a chyflym o weld faint y gallech ei gael: **moneyhelper.org.uk/money-manager.uk/benefits-calculator**

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar faint o oriau y gallwch chi weithio. Yn hytrach, bydd y maint a gewch chi'n mynd i fyny neu i lawr yn dibynnu ar eich enillion fesul mis. Gwelwch dudalen 20.

### Sut mae'n cael ei dalu

Telir Credyd Cynhwysol fel un taliad misol ar gyfer eich cartref cyfan, ac mae'n cael ei dalu'n syth i'ch cyfrif banc.

Os ydy hyn yn cynnwys unrhyw gymorth gyda'ch rhent, eich lle chi yw talu eich landlord. Gwelwch dudalen 17 i gael rhagor o gymorth.

Efallai y bydd yn rhaid i chi aros hyd at bum wythnos i dderbyn eich taliad cyntaf, am ei fod yn cael ei dalu fel ôl-ddyled. Ond os byddwch chi'n cael trafferth hebddo, gallwch wneud cais am daliad ymlaen llaw. Gwelwch dudalen 12.

### Peidiwch ag oedi wrth gyflwyno hawliad am Gredyd Cynhwysol

Dim ond am fis y mae modd ôl-dalu taliadau Credyd Cynhwysol. Felly, os na fyddwch chi'n hawlio ar unwaith, gallech golli allan ar arian y mae gennych hawl iddo.

Gallwch bob amser ganslo'r hawliad os byddwch yn cael swydd neu os bydd pethau'n gwella'n ariannol.

Gall gwasanaeth Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth eich cefnogi i wneud cais. Gwelwch dudalen 11.

Dysgwch ragor yn **moneyhelper.org.uk/universal-credit-introduction**

# 2. Symud i Gredyd Cynhwysol o’ch budd-daliadau presennol

**Os ydych yn derbyn budd-daliadau eraill yn barod, efallai y bydd gofyn i chi hawlio Credyd Cynhwysol yn eu lle.**

Mae Credyd Cynhwysol yn cymryd lle'r budd-daliadau 'etifeddol' hyn:

- Budd-dal Tai
- Credyd Treth Plant
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Treth Gwaith
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm

Efallai y bydd yn rhaid i chi hawlio Credyd Cynhwysol os:

- yw eich sefyllfa'n newid ac mae angen i chi wneud hawliad newydd, neu
- ydych yn derbyn llythyr yn dweud wrthych am hawlio Credyd Cynhwysol yn lle rhywbeth arall.

### Hawlio Credyd Cynhwysol os bydd eich amgylchiadau'n newid

Os bydd rhywbeth wedi newid yn eich bywyd, fel babi newydd neu golli swydd, bydd hyn yn sbarduno cais am Gredyd Cynhwysol.

Mae hynny'n golygu y bydd y mwyafrif o'ch hen fudd-daliadau'n dod i ben fel arfer bythefnos wedi i chi wneud eich cais am Gredyd Cynhwysol. Bydd Credydau Treth yn dod i ben ar unwaith wedi i chi wneud eich cais.

Mae newid mewn amgylchiadau'n golygu y byddwch efallai'n cael mwy neu lai o Gredyd Cynhwysol. Os ydych yn poeni, y peth gorau i'w wneud yw siarad â chynghorydd Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth cyn i chi wneud cais newydd (gwelwch dudalen 11). Gallwch hefyd ddefnyddio ein cyfrifiannell budd-daliadau i weld faint y gallech ei gael yn **moneyhelper.org.uk/pension-calculator**

Cewch ragor o gymorth yn **entitledto.co.uk/help/changes_that_trigger_Universal_Credit**

### Os gofynnir i chi symud i Gredyd Cynhwysol

Os bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau eisiau i chi symud i Gredyd Cynhwysol, byddwch yn derbyn llythyr Symud i Gredyd Cynhwysol (Hysbysiad Mudo) yn gofyn i chi hawlio Credyd Cynhwysol o fewn tri mis i ddyddiad y llythyr.

Ddylech chi ddim bod ar eich colled o drosglwyddo i Gredyd Cynhwysol.

Os yw’r swm y mae gennych hawl iddo'n llai ar Gredyd Cynhwysol na’ch hen fudd-daliadau, byddwch yn cael arian ychwanegol ar ben eich taliad o dan y Warchodaeth Drosiannol i wneud yn siŵr nad ydych ar eich colled.

Os ydych yn poeni ac eisiau cymorth i drosglwyddo, mae'n bwysig eich bod yn gweithredu'n gyflym. Mae cymorth a chefnogaeth ar gael drwy wasanaeth Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth. (Gwelwch dudalen 11).

## Symud i Gredyd Cynhwysol 2024

Os ydych yn derbyn budd-daliadau etifeddol, dyma pryd y gallwch ddisgwyl cael eich gwahodd i symud i Gredyd Cynhwysol.

**O Ebrill 2024:**

- Cymhorthdal Incwm
- Credydau Treth gyda Budd-dal Tai

**O fis Mehefin 2024:**

- Budd-dal Tai yn unig

**O fis Gorffennaf 2024:**

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm gyda Chredyd Treth Plant

**O fis Medi 2024:**

- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm

**O fis Awst 2024**, os ydych yn derbyn Credydau Treth ac rydych yn hŷn nag oed Pensiwn y Wladwriaeth, cewch eich gwahodd i hawlio naill ai Gredyd Cynhwysol neu Gredyd Pensiwn, yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Darllenwch ragor am y Symudiad i Gredyd Cynhwysol: **ucmove.campaign.gov.uk**

# 3. Ymgeisio am Gredyd Cynhwysol

**Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud ac yn rheoli eu cais am Gredyd Cynhwysol ar-lein a gall gymryd hyd at bum wythnos i gael eich taliad cyntaf.**

Golyga hyn ei bod hi'n bwysig cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch pan fyddwch yn ymgeisio.

**Rhestr wirio wrth ymgeisio**

Pan fyddwch yn ymgeisio, gwnewch yn siŵr fod gennych y canlynol:

- ☐ Manylion cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd (gwelwch dudalen 16)
- ☐ Cyfeiriad e-bost
- ☐ Gwybodaeth am dai, yn cynnwys faint o rhent a dalwch a chytundeb tenantiaeth neu ddatganiad morgais
- ☐ Manylion am incwm, yn cynnwys slipiau talu
- ☐ Manylion cynilion ac incwm ychwanegol
- ☐ Manylion faint rydych chi'n dalu am ofal plant
- ☐ ID gyda ffoto (pasbort, trwydded yrru, dogfennau hunaniaeth)

## Hawliadau ar y cyd

Mae'n rhaid i chi wneud cais ar y cyd am Gredyd Cynhwysol os ydych yn byw gyda rhywun fel cwpl.

Mae hyn yn golygu y cewch chi un taliad i gyfrif banc sengl. Os oes gennych blant, fel rheol bydd y taliad yn mynd i gyfrif banc y prif ofalwr.

Os nad ydych wedi arfer rheoli eich arian gyda'ch gilydd neu os ydych yn ffraeo am arian weithiau, ewch i **moneyhelper.org.uk/talking-about-money**

Os ydych yn poeni am hawlio ar y cyd, er enghraifft oherwydd trais domestig, neu am fod eich partner yn gamblo neu'n camddefnyddio alcohol neu gyffuriau, gallwch ddweud wrth eich hyfforddwr gwaith yn gyfrinachol. Maent wedi'u hyfforddi i'ch helpu a gallant drefnu bod arian yn cael ei dalu i chi ar wahân.

Os ydych yn poeni am gam-drin ariannol, ewch i **moneyhelper.org.uk/protecting-against-financial-abuse**

Gwnewch yn siŵr fod eich cytundeb tenantiaeth yn gyfredol a'i fod yn dweud p'un a yw'n denantiaeth ar y cyd neu sengl. Os nad yw'n glir, gallai oedi taliad eich Credyd Cynwhysol neu gallech dderbyn y swm anghywir o arian.

# 4. Credyd Cynhwysol os ydych yn sâl neu'n anabl

**Gall hawlio Credyd Cynhwysol ar-lein fod yn fwy anodd os oes gennych salwch neu anabledd sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi ddefnyddio'r we neu reoli pethau eich hun.**

Os oes angen cymorth arnoch, gallwch ffonio llinell gymorth Credyd Cynhwysol a threfnu apwyntiad i rywun eich ffonio'n ôl i wneud yr hawliad dros y ffôn. Gwelwch dudalen 23.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cynnig gwasanaeth ymweld hefyd os na allwch adael eich cartref neu os ydych yn yr ysbyty. Gall cynghorydd Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth eich cefnogi i wneud eich hawliad am Gredyd Cynhwysol hefyd. Gallant hefyd eich helpu i drefnu i'r Adran Gwaith a Phensiynau ymweld â'ch cartref. (Gwelwch dudalen 11).

### Defnyddio cynrychiolydd neu benodai

Gallwch hefyd benodi cynrychiolydd. Byddant yn gallu dod o hyd i wybodaeth i chi a'ch helpu i ddeall pethau am eich hawliad.

Dylai cynrychiolydd fod yn rhywun rydych yn ei nabod ac yn ymddiried ynddynt, fel ffrind, aelod o'ch teulu neu weithiwr cymorth. Bydd yn rhaid i chi roi caniatâd i rywun ddod yn gynrychiolydd i chi. Gallwch wneud hyn drwy eich dyddlyfr ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb gyda'ch anogwr gwaith.

> Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gynrychiolwyr a phenodeion yn **gov.uk/guidance/universal-credit-consent-and-disclosure-of-information**

Os hoffech wneud hyn yn ffurfiol, gallwch drefnu i rywun fod yn benodai. Mae dod yn benodai yn drefniant cyfreithiol.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cyfweld penodeion posibl a gallant dynnu'r hawl oddi ar rywun i fod yn benodai hefyd. Mae'n bosibl hefyd i benodai fod yn gyfrifol am or-daliadau. Dysgwch ragor yn **gov.uk/become-appointee-for-someone-claiming-benefits**

### Asesiadau Gallu i Weithio

Os ydych yn gwneud hawliad newydd oherwydd salwch neu anabledd, bydd angen i chi gael Asesad Gallu i Weithio. Nod hwn yw asesu sut mae eich anabledd neu salwch yn effeithio ar eich gallu i weithio. Gall cynghorydd Cymorth i Hawlio eich cefnogi wrth i chi baratoi am asesiad. (Gwelwch dudalen 11)

Os ydych yn symud oddi wrth y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) ni ddylech orfod gwneud Asesiad Gallu i Weithio arall heblaw os gofynnir i chi wneud hynny am resymau penodol.

### Sut mae Credyd Cynhwysol yn effeithio ar PIP a DLA?

Os ydych yn derbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), bydd yn parhau i gael ei dalu ochr yn ochr â'ch taliad Credyd Cynhwysol.

Ni fydd y budd-daliadau hyn yn effeithio ar faint dderbyniwch chi mewn Credyd Cynhwysol.

> Dysgwch ragor am hawlio Credyd Cynhwysol os ydych chi'n sâl neu'n anabl yn **moneyhelper.org.uk/universal-credit-for-disabled-people**

# 5. Credyd Cynhwysol os oes gennych blant

**Os yw eich plant yn byw gyda chi, gallech gael taliad ychwanegol bob mis.**

Mae'r elfen plant yn y Credyd Cynhwysol yn helpu gyda chostau magu plant.

Fel arfer rydych yn cael taliad misol i'ch ddau blentyn cyntaf, neu i bob un ohonynt os cawsent eu geni cyn 6 Ebrilll 2017.

Mae hyn yn parhau nes byddan nhw'n troi'n 16, neu 19 os ydyn nhw'n aros mewn addysg lawn amser nad yw'n addysg uwch. Byddai eich taliad yn dod i ben ar y 31ain Awst ar ôl eu pen-blwydd.

Os oes gennych dri o blant ac rydych yn poeni am hawlio, cysylltwch â Gwasanaeth Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth, oherwydd mae eithriadau pan mae'n bosibl hawlio ar gyfer mwy nag un plentyn.

Dysgwch ragor yn **moneyhelper.org.uk/en/benefits/benefits-if-you-have-children/claiming-child-benefit**

## Os oes anabledd gan eich plentyn

Yn dibynnu ar gyflwr eich plentyn, efallai y gallwch chi gael taliad ychwanegol – yr enw ar hwn yw ychwanegiad plentyn anabl.

## Gallwch hawlio Budd-dal Plant o hyd

Bydd unrhyw daliad Credyd Cynhwysol ar wahân i Fudd-dal Plant, felly gallwch hawlio'r ddau ar yr un pryd.

## Costau gofal plant a Chredyd Cynhwysol

Os ydych yn gweithio ac mae angen help arnoch gyda chostau gofal plant, gall yr elfen costau gofal plant o Gredyd Cynhwysol dalu hyd at 85 y cant o'ch ffioedd.

Os ydych yn hawlio ar y cyd, mae'n rhaid i'r ddau ohonoch fod yn gweithio oni bai fod un ohonoch yn methu oherwydd salwch neu oherwydd bod angen i chi dreulio peth o'r amser i ffwrdd o'r cartref.

Os ydych yn symud i swydd neu'n cynyddu eich oriau, gallwch hawlio eich costau gofal plant o flaen llaw.


Mae hefyd werth edrych i weld ydych chi'n gymwys i gael hyd at 30 awr o ofal plant am ddim sy'n cael eu cynnig, gan ddechrau gydag 15 awr pan fydd eich plentyn yn cyrraedd dwy flwydd oed, sydd hefyd yn gallu gostwng eich costau gofal plant. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys babanod o naw mis oed o fis Medi 2024.

Os ydych yn meddwl y byddwch yn cael trafferth dod o hyd i leoliad gofal plant, neu gadw lleoliad gofal plant, am eich bod yn dechrau gweithio neu'n cael egwyl rhwng swyddi, gofynnwch i'ch anogwr gwaith am y Gronfa Cymorth Hyblyg.

Gallai hefyd eich helpu chi gyda'r canlynol:

- talu blaendal am leoliad gofal plant os dewch chi o hyd i swydd
- cadw lleoliad gofal plant tra byddwch chi ar gyfnod mamolaeth neu'n cael seibiant byr rhwng swyddi.

Os ydych yn poeni sut y byddwch chi'n cyllidebu ar gyfer costau gofal plant cyn i chi gael eich taliad cyntaf, gall cynghorydd Cymorth i Hawlio (gwelwch dudalen 11) neu eich anogwr gwaith eich helpu.



Darllenwch fwy am ofal plant rhad ac am ddim a chymorth i dalu costau gofal plant yn **gov.uk/childcare-calculator**

# 6. Defnyddio gwasanaeth Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth

**Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu gwasanaeth Cymorth i Hawlio annibynnol sy'n ddiduedd ac yn rhad ac am ddim, os ydych yn:**

- gwneud hawliad Credyd Cynhwysol newydd, neu'n
- symud i Gredyd Cynhwysol o fudd-daliadau presennol oherwydd newid mewn amgylchiadau.

Mae'r gwasanaeth ar gael i bawb, a gall eich cefnogi yng nghamau cynnar eich cais am Gredyd Cynhwysol – o'r cais hyd eich taliad cyntaf.

### Sut mae'r Gwasanaeth Cymorth i Hawlio yn gweithio

Mae Cymorth i Hawlio ar gael ar-lein neu dros y ffôn drwy wasanaethau Cyngor ar Bopeth lleol.

Os oes angen cymorth wyneb yn wyneb arnoch chi gyda'ch cais, gall eich Cyngor ar Bopeth lleol eich cyfeirio at eich Canolfan Byd Gwaith leol fel y gallwch gael cymorth gan anogwr gwaith arbenigol.

Y peth cyntaf y bydd cynghorydd yn ei wneud fydd gwirio ai Credyd Cynhwysol yw'r budd-dal cywir i chi.

Yna byddant yn siarad â chi am eich sefyllfa fel y gallant asesu'r lefel o gymorth sydd ei angen arnoch.

Os oes angen cymorth arnoch i ddechrau eich hawliad am Gredyd Cynhwysol, dyma rai o'r pethau y gallant eich helpu chi â nhw:

- sefydlu cyfeiriad e-bost a/neu gyfrif Credyd Cynhwysol
- agor cyfrif banc
- gweithio drwy restr o bethau i'w gwneud ar gyfer gwneud hawliad llwyddiannus
- egluro'r dyddlyfr ar-lein a sut y caiff ei ddefnyddio
- cael mynediad at wasanaeth hawlio Credyd Cynhwysol dros y ffôn
- cael mynediad at gymorth ymweld â'r cartref y DWP.

Os oes angen cymorth arnoch i baratoi ar gyfer eich taliad cyntaf, gall cymorth gynnwys eich helpu i:

- gadarnhau eich hunaniaeth
- rhoi trefn ar eich gwaith papur a'ch dogfennau pwysig
- paratoi ar gyfer ymdopi â'ch taliad misol cyntaf
- gwneud yn siŵr bod eich hyfforddwr gwaith yn deall eich amgylchiadau personol
- ymgeisio am flaenswm a chael cymorth ariannol ychwanegol.

Gallwch gysylltu â gwasanaeth Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth ar: Ffôn: 0800 144 8444 (Llun-Gwe, 8am-6pm) Ffôn testun: 18001 0800 144 8444

Wedi i chi dderbyn eich taliad Credyd Cynhwysol cyntaf, gall Advicelocal ddarparu cymorth a chefnogaeth arall gyda budd-daliadau. Dysgwch ragor yn **advicelocal.uk**

Os oes angen help wyneb yn wyneb arnoch chi i wneud eich cais, bydd cymorth yn cael ei ddarparu drwy eich anogwr gwaith yn eich Canolfan Byd Gwaith leol.

# 7. Blaendaliadau Credyd Cynhwysol

**Gall gymryd hyd at bum wythnos i gael eich taliad Credyd Cynhwysol cyntaf. Os byddwch yn brin o arian neu heb arian o gwbl tan eich taliad cyntaf, gallwch ofyn am flaendaliad.**

Bydd angen i chi egluro pam fod angen y blaendaliad hwn arnoch a dylech gael penderfyniad ar yr un diwrnod. Dylai unrhyw flaendaliad y cytunir arno gael ei dalu i'ch banc o fewn pum niwrnod gwaith.

Gallwch chi ofyn am hyd at dâl mis llawn fel rhagdaliad. Ond byddwch yn ofalus i ofyn am yr hyn sydd ei angen arnoch chi yn unig, gan y bydd yn rhaid i chi ad-dalu hyn o'ch taliadau Credyd Cynhwysol yn y dyfodol am hyd at 12 mis. Bydd gennych hyd at 24 mis i ad-dalu unrhyw fenthyciadau y gwnewch gais amdanynt o fis Rhagfyr 2024.

Os mai dim ond rhan o'r taliad y byddwch chi'n ei hawlio, ond eich bod yn canfod eich bod angen mwy o arian, gallwch wneud hawliad pellach ar gyfer gweddill eich taliad cyntaf.

Unwaith y bydd y cyfnod asesu wedi dod i ben, ni allwch hawlio blaendaliad arall.

Gallwch ofyn am flaendaliad drwy wneud hyn:

- siarad â'ch anogwr gwaith
- gofyn trwy eich cyfrif ar-lein
- ffonio llinell gymorth Credyd Cynhwysol (gwelwch Cysylltiadau Defnyddiol ar dudalen 23)
- siarad â chynghorydd Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth

Dysgwch ragor am daliadau ymlaen llaw a blaendaliadau cyllidebu yn **moneyhelper.org.uk/advance-payment**

**Rhestr wirio blaendaliad**

Os ydych yn ystyried ymgeisio am flaendaliad, mae angen i chi ystyried:

- [ ] Faint sydd arnoch ei angen? Bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r blaendaliad o'ch taliadau Credyd Cynhwysol yn y dyfodol, felly peidiwch â gofyn am fwy nag y byddwch ei angen.
- [ ] Ar gyfer beth ydych chi ei angen? Bydd angen i chi gael rheswm dros ofyn am flaendaliad ac os gallwch fynd drwy'r pum wythnos hebddo, bydd eich taliadau yn y dyfodol yn uwch.
- [ ] Sut fyddwch chi'n ei ad-dalu? Cymerir yr ad-daliadau o'ch lwfans sylfaenol. Sut fydd hyn yn effeithio ar faint o arian sydd gennych ar gyfer hanfodion bob dydd?

# 8. Sgamiau blaendaliadau Credyd Cynhwysol

**Byddwch yn wyliadwrus o gael eich targedu gan sgamwyr sy'n cynnig benthyciadau cost isel neu grantiau gan y llywodraeth.**

Efallai fod rhywun wedi eich ffonio yn honni ei fod yn gweithio i'r Ganolfan Byd Gwaith, neu wedi cysylltu â chi drwy hysbysebion cyfryngau cymdeithasol. Mae gan nifer o'r sgamwyr wefannau sy'n eich argyhoeddi, gyda logos a thystebau gan y llywodraeth.

Mae'n bosibl y byddant yn ei alw'n fenthyciad neu'n grant, ond yr hyn a wnant yw ymgeisio am y blaendaliad ar eich rhan a chymryd peth o'r arian hwn fel eu ffi. I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt hawlio am Gredyd Cynhwysol yn eich enw a byddant yn gofyn am eich manylion a dogfennau personol.

Ni ddylech roi unrhyw fanylion na dogfennau personol iddynt, megis eich cyfrif banc, neu unrhyw ffurf ar ID gyda llun, fel eich pasbort neu drwydded yrru.

Bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw arian a gewch chi a gallai gael ei ysyried yn dwyll. Dyma'r rheswm am hynny: os bydd sgamwyr yn hawlio Credyd Cynhwysol i chi hefyd, gallai ddweud celwydd am eich amgylchiadau er mwyn cael rhagor o arian. Mae sgamwyr hefyd wedi targedu grwpiau o bobl fel myfyrwyr sy'n methu hawlio Credyd Cynhwysol fel arfer.

Os oes angen blaendaliad arnoch, nid oes angen talu i rywun arall ymgeisio drosoch.

Gallwch roi gwybod am sgamiau yn **gov.uk/report-benefit-fraud**

# 9. Llunio cyllideb

**Mae llunio cyllideb yn eich helpu i gadw'ch arian dan reolaeth a gweld ymhle y gallech arbed arian. Gwnewch yn siŵr eich bod yn:**

- Adio eich incwm i gyd at ei gilydd o'ch Credyd Cynhwysol, eich gwaith, a budd-daliadau, incwm neu bensiynau
- Gwneud rhestr o'ch holl daliadau
- Rhannu gwariant yn bethau hanfodol a phethau y gallwch wneud hebddynt
- Dechrau gyda'r prif gostau byw fel costau tai ac ynni
- Cofio costau gofal plant
- Cofio costau teithio a thrafnidiaeth
- Cynnwys dyledion fel benthyciadau a thaliadau cerdyn credyd

Beth bynnag sy'n digwydd yn eich bywyd, efallai fod ffyrdd o wneud i'ch incwm fynd ymhellach. Dysgwch sut i dorri'n ôl ar gostau a gweld pa gymorth ychwanegol sydd ar gael yn **moneyhelper.org.uk/way-forward/squeezed-income**

# 10. Cynllunydd Cyllideb

| **Incwm misol** | |
|---|---|
| Credyd Cynhwysol | |
| Enillion o waith | |
| Budd-daliadau eraill | |
| Pensiynau | |
| Incwm arall | |
| **Cyfanswm yr incwm:** | |

| **Costau hanfodol** | |
|---|---|
| Rhent neu forgais | |
| Y Dreth Gyngor | |
| Nwy a thrydan | |
| Dŵr | |
| Ffôn a band eang | |
| Trafnidiaeth a theithio | |
| Costau gofal ac iechyd | |
| Costau ysgol a gofal plant | |
| Cynhaliaeth Plant | |
| Costau cysylltiedig â gwaith | |
| Costau hanfodol eraill | |
| **Cyfanswm costau hanfodol:** | |

| **Costau Hyblyg** | |
|---|---|
| Costau personol | |
| Bwyd a chadw tŷ | |
| Adloniant a hamdden | |
| **Cyfanswm costau hyblyg:** | |

| **Cyfanswm treuliau misol (hanfodol a hyblyg):** |
|---|

| Dyledion sy'n cael blaenoriaeth | |
|---|---|
| Ôl-ddyledion rhent neu forgais | |
| Y Dreth Gyngor | |
| Nwy a thrydan | |
| Cynhaliaeth Plant | |
| Dirwyon llys | |
| Cyllid car (os yw'n hanfodol) | |
| Benthyciadau wedi'u gwarantu | |
| Cyllid ar gyfer eitemau hanfodol | |
| Trwydded Deledu | |
| **Cyfanswm dyledion â blaenoriaeth:** | |

| Dyledion heb flaenoriaeth | |
|---|---|
| Gorddrafft | |
| Cardiau credyd | |
| Benthyciad personol | |
| Taliadau siop neu gatalog | |
| Benthyciadau gan ffrindiau neu deulu | |
| Dŵr | |
| **Cyfanswm dyledion heb flaenoriaeth:** | |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm incwm tynnu cyfanswm costau a chyfanswm dyledion:**<br><br>**£** | |

# 11. Sut i gynilo arian

**Meddyliwch am y canlynol.**

- Gwirio gyda'ch darparwr ynni i weld a ydych yn gymwys i gael tariff cymdeithasol
- Chwilio am ostyngiadau a thalebau
- Torri'n ôl ar siopa bwyd
- Lleihau cost coginio
- Gwerthu eich hen bethau ar-lein
- Trosglwyddo eich dyled cardiau credyd

Mae ein peiriant blaenoriaethu biliau cyflym, hawdd ei ddefnyddio yn eich helpu i ddeall pa filiau a thaliadau i ddelio â nhw'n gyntaf a sut i osgoi colli unrhyw daliadau. Dysgwch ragor yn **moneyhelper.org.uk/way-forward/bill-prioritiser**

# 12. Cael y cyfrif banc cywir

**Rhaid i'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd adael i chi wneud y pethau hyn:**

- derbyn taliadau awtomatig oherwydd dyna sut y caiff eich Credyd Cynhwysol ei dalu
- trefnu Debydau Uniongyrchol ac archebion sefydlog i dalu eich rhent a biliau eraill.

Os nad ydych wedi defnyddio Debydau Uniongyrchol neu archebion sefydlog o'r blaen, siaradwch â'ch darparwr cyfrif ynglŷn â sut i drefnu'r dyddiad gorau ar gyfer talu. Peidiwch â'u trefnu nes eich bod yn gwybod faint o Gredyd Cynhwysol y byddwch chi'n ei gael ac rydych wedi derbyn eich taliad cyntaf. Bydd hyn yn eich helpu i osgoi gorfod talu costau neu ffioedd am fynd i mewn i'ch gorddrafft.

Dysgwch am wahanol fathau o gyfrifon yn **moneyhelper.org.uk/choosing-the-right-bank-account**

## Cyfrifon banc sylfaenol heb ffi

Dydy pobl ddim yn gymwys yn awtomatig i gael cyfrif banc sylfaenol. Os nad ydych yn gymwys i gael cyfrif banc arferol, efallai am fod gennych hanes credyd gwael, mae'n bosibl y cynigir cyfrif banc syflaenol heb ffi i chi yn lle hynny.

Mae rhai banciau, gan gynnwys HSBC, RBS, Lloyds, Barclays a Halifax, bellach yn derbyn datganiad Credyd Cynhwysol fel dull adnabod ar gyfer agor cyfrif, os nad oes gennych y dulliau adnabod arferol sy'n ofynnol.

Gyda chyfrifon banc sylfaenol heb ffi:

- caniateir i chi wneud a derbyn taliadau awtomatig
- ni chaniateir i chi gael gorddrafft
- ni chodir unrhyw ffioedd arnoch (ond gall y bobl y mae arnoch arian iddynt godi ffi arnoch am fethu taliadau).

Dysgwch ragor am ba fanciau sy'n cynnig cyfrifon banc sylfaenol di-dâl yn **moneyhelper.org.uk/fee-free-basic-bank-accounts**

**Rhestr wirio dewis y cyfrif banc cywir**

**Rhestr wirio sut i agor cyfrif banc**

I agor cyfrif banc, bydd angen y canlynol arnoch:

- ☐ Prawf adnabod (e.e. pasbort, trwydded yrru)
- ☐ Prawf o gyfeiriad (e.e. bil cyfleustod, cytundeb tenantiaeth)

Dysgwch ragor ynglŷn â sut i agor cyfrif banc yn **moneyhelper.org.uk/open-bank-account**

# 13. Talu eich costau tai

**Chi fydd yn gyfrifol am dalu rhent i'ch landlord gyda Chredyd Cynhwysol.**

### Gwnewch yn siŵr fod eich dyddiad talu rhent yn syth ar ôl i chi gael eich talu

Telir Credyd Cynhwysol ar yr un dyddiad bob mis. Pan fyddwch yn gwybod y dyddiad, gofynnwch i'ch landlord a allwch chi symud eich dyddiad talu rhent i fod ychydig ar ôl i chi dderbyn eich taliad Credyd Cynhwysol – neu gyflog os ydych yn gweithio hefyd.

### Trefnu archeb sefydlog

Ar ôl i chi gael eich taliad Credyd Cynhwysol cyntaf, trefnwch archeb sefydlog fel bod eich rhent yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch landlord ar yr un dyddiad bob mis, fel na fydd rhaid i chi gofio ei wneud.

Gallwch ofyn i'ch banc wneud hyn, neu ei drefnu drwy fancio ar-lein.

### Rhowch eich rhent mewn cyfrif ar wahân

Agorwch gyfrif ar wahân ac archeb sefydlog fel bod eich arian rhent ar wahân i'ch arian gwario.

### Beth i'w wneud os oes gennych chi ddiffyg rhent

Efallai na fydd eich taliad Credyd Cynhwysol yn ddigon i dalu'r cyfan o'ch costau tai. Mae hyn yn fwy tebygol os ydych yn byw mewn tŷ rhent preifat.

Os digwydd hyn, efallai y gallech hawlio Taliad Tai Dewisol (DHP) gan eich cyngor lleol i dalu'r diffyg rhent.

Gallwch hefyd ddefnyddio DHP ar gyfer blaendal rhent neu i dalu rhent ymlaen llaw am eiddo yr ydych yn bwriadu symud i mewn iddo.

Dim ond ar ôl i chi dderbyn eich taliad Credyd Cynhwysol cyntaf y gallwch hawlio DHP.

I'ch helpu i baratoi cyn i chi gael eich taliad cyntaf, gall cynghorydd Cymorth i Hawlio eich helpu i gyfrifo p'un a fydd eich taliad Credyd Cynhwysol yn ddigon i dalu'r cyfan o'ch costau rhent a'ch helpu i wneud hawliad am DHP i'ch cyngor lleol os bydd angen un arnoch. (gwelwch dudlaen 11).

## Os ydych yn berchennog cartref

Os oes gennych forgais, efallai y gallech gael cymorth i dalu eich taliadau llog. Enw hwn yw benthyciad Cymorth â Llog Morgais (SMI). Rhaid ad-dalu'r benthyciad hwn pan fyddwch yn gwerthu eich cartref, heblaw eich bod yn trosglwyddo'r benthyciad i'ch eiddo newydd.

Os ydych yn gwneud hawliad newydd am Gredyd Cynhwysol, bydd yn rhaid i chi aros 13 wythnos (tri chyfnod asesu) o'r dyddiad y gwnaethoch hawl am SMI nes y telir eich taliad SMI cyntaf.

Mae'n well ymgeisio cyn gynted â phosibl, fodd bynnag mae llog Cymorth i Forgais yn gallu cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad cyntaf roeddech chi'n gymwys ar ei gyfer.

Os ydych eisoes yn derbyn SMI, bydd yn parhau pan fyddwch yn symud i Gredyd Cynhwysol.

Dysgwch ragor am Gymorth ar gyfer Llog Morgais yn **moneyhelper.org.uk/smi**

## Gostyngiad y Dreth Gyngor

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, mae'n bosibl y gallwch gael cymorth i dalu eich Treth Gyngor.

Mae gan bob cyngor lleol ei gynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor Lleol ei hun, felly bydd angen i chi wneud cais iddynt yn uniongyrchol.

Ni fydd y mwyafrif o gynghorau'n ôl-ddyddio taliadau heblaw bod gennych reswm da iawn dros beidio gwneud cais ar unwaith. Felly, os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais am ostyngiad gynted ag y byddwch wedi gwneud eich cais.

Gallwch wneud cais i'ch cyngor lleol am Ostyngiad yn y Dreth Gyngor Lleol yn **gov.uk/apply-council-tax-reduction**



# 14. Os byddwch chi'n mynd i ôl-ddyledion rhent

**Os credwch chi y byddwch chi'n hwyr gyda'ch rhent:**

- siaradwch gyda'ch landlord, cymdeithas tai neu gyngor cyn y bydd problem
- agorwch eu llythyron a dychwelwch eu galwadau
- ceisiwch weithio gyda nhw i ddod o hyd i ateb ymarferol.

Bydd y pethau hyn yn dangos eich bod chi'n gwneud ymdrech i gadw ar ben pethau.

### Gwnewch gais am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai

Os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod, gwnewch gais am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai drwy eich cyngor lleol a allai eich helpu i ychwanegu at eich rhent.

### Beth i'w wneud os oes gennych chi ddiffyg rhent

Dim ond ar ôl i chi dderbyn eich taliad Credyd Cynhwysol cyntaf y gallwch hawlio DHP.

### Os ydych chi eisoes mewn ôl-ddyledion rhent

Siaradwch â'ch landlord neu'ch anogwr gwaith am sefydlu taliadau uniongyrchol os ydych eisoes ar ei hôl hi gyda'ch rhent.

Fel hyn, bydd eich rhent yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch landlord hyd nes y byddwch chi'n ôl ar y trywydd cywir.

Os ydych chi'n dymuno parhau i dalu'r rhent eich hun gofynnwch i'ch hyfforddwr gwaith am daliad amlach. Byddwch yn derbyn eich taliad Credyd Cynhwysol bob pythefnos neu'n wythnosol. Gallai hyn eich helpu chi i dalu'ch rhent ar amser.

### Os yw eich landlord yn gofyn am daliad uniongyrchol

Gall eich landlord hefyd ofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau am gael taliad uniongyrchol os ydych ar ei hôl hi gyda'r rhent.

Ar yr un pryd gallant ofyn i'r ôl-ddyledion rhent gael eu had-dalu o'ch taliadau Credyd Cynhwysol. Gallai hyn eich gadael gydag ychydig iawn o arian i fyw arno, yn enwedig os ydych hefyd yn ad-dalu blaendaliad neu ordaliad credyd treth.

### Os ydych chi'n ad-dalu ôl-ddyledion rhent

Dywedwch wrth eich anogwr gwaith os yw'r ad-daliadau yn rhy uchel a'ch bod chi mewn risg o fynd i fwy o ddyled. Gall helpu i'w gosod ar gyfradd y gallwch chi ei fforddio. Dylech hefyd dderbyn cyngor brys ar ddyledion i'ch helpu i roi trefn ar bethau.

Defnyddiwch ein hofferyn canfod cyngor am ddyledion neu siaradwch â'ch anogwr gwaith ynglŷn â chael cyngor am ddyled yn lleol i chi.

> Dewch o hyd i gyngor annibynnol ar ddyledion yn rhad ac am ddim yn eich ardal chi yn **moneyhelper.org.uk/debt-advice-locator**

### Cyngor am ôl-ddyledion rhent neu droi allan

Os ydych yn poeni am ôl-ddyledion rhent neu droi allan tra'r ydych yn aros am eich taliad cyntaf, siaradwch â:

**Gwasanaeth Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth (gwelwch dudalen 10).**
**Shelter**
Ffôn: 0808 800 4444
Gwefan: **sheltercymru.org.uk**

> Os bydd angen cymorth a chefnogaeth arnoch chi i reoli eich dyledion rhent neu ddyledion eraill, gallwch ddod o hyd i gyngor cyfrinachol am ddyled yn rhad ac am ddim ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn **moneyhelper.org.uk/debt-advice-locator**

# 15. Credyd Cynhwysol, gweithio, cyllidebu a chynilo

**Nid oes cyfyngiadau ar nifer yr oriau y gallwch chi eu gweithio ar Gredyd Cynhwysol. Ond mae faint rydych chi'n gweithio a pha mor aml y cewch eich talu yn gallu effeithio eich taliad.**

Gall hyn wneud i gyllidebu ymddangos yn anodd, yn arbennig os yw eich incwm yn newid bob mis – fel contract sero awr neu fos ydych yn hunangyflogedig.

Mae ffyrdd o helpu.

### Cadw llygad ar eich diwrnodau tâl

Mae eich taliad Credyd Cynhwysol wedi ei seilio ar eich enillion o'r mis calendr blaenorol.

Felly, mae pa mor aml mae eich cyflogau'n cale eu talu yn gallu effeithio ar eich taliad Credyd Cynhwysol, yn enwedig os cewch eich talu'n wythnosol, bob pythefnos neu bob pedair wythnos.

Edrychwch ymlaen at y flwyddyn nesaf i weld pryd y gallech gael mis lle'r ydych yn cael eich talu'n amlach.

Gwnewch yn siŵr fod gennych ychydig o'r arian hwnnw i'ch cadw i fynd yn ystod y mis dilynol pan fydd eich taliad Credyd Cynhwysol yn is.

### Os bydd eich taliad Credyd Cynhwysol yn stopio

Os cewch chi fwy o gyflogau nag arfer mewn mis calendr, gallai eich taliad Credyd Cynhwysol stopio'n gyfan gwbl.

Edrychwch ar eich calendr a chynlluniwch ymlaen llaw ar gyfer adeg pan allai hyn ddigwydd a siaradwch â'ch anogwr gwaith os oes angen cymorth arnoch.

I gael rhagor o gymorth gyda beth i'w wneud i reoli mwy nag un taliad o'r gwaith y mis, darllenwch y canllaw yn **gov.uk/guidance/universal-credit-and-earnings**

### Cymorth i Gynilo

Mae Cymorth i Gynilo yn gynllun cynilo i bobl ar incwm isel sy'n hawlio budd-daliadau penodol. Mae Cymorth i Gynilo'n rhoi taliad bonws gan y llywodraeth o hyd at 50% ar gynilion a delir i mewn i'r cyfrif.

Hyd yn oed os nad ydych yn gymwys bellach i gael Credyd Cynhwysol, ni fydd yn yn effeithio ar eich cyfrif Cymorth i Gynilo – dim ond ar y diwrnod ymgesio am y cyfrif y mae angen i chi fod yn gymwys.

Dysgwch ragor yn **gov.uk/get-help-savings-low-income**

# 16. Os ydych yn hunangyflogedig

**Bydd yn rhaid i chi fynd i gyfweliad pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol i ddangos bod eich hunangyflogaeth yn rheolaidd, trefnus, wedi datblygu ac y disgwylir iddo wneud elw.**

Os na allwch ddangos digon o dystiolaeth, efallai y bydd yn rhaid i chi chwilio am waith arall a bod ar gael i wneud gwaith arall tra byddwch chi'n cael Credyd Cynhwysol.

Bydd yn rhaid i chi roi gwybod faint yw eich enillion ar-lein bob mis fel bod yr Adran Gwaith a Phensiynau'n gallu cyfrifo cyfanswm eich taliad Credyd Cynhwysol nesaf.

Dysgwch ragor am Gredyd Cynhwysol pan ydych yn hunangyflogedig yn **moneyhelper.org.uk/universal-credit-for-the-self-employed**

## Cyllidebu os nad yw eich incwm yr un fath bob mis

Hyd yn oed os yw eich incwm o waith a Chredyd Cynhwysol yn newid bob mis, mae'n bosibl cyllidebu o hyd. Y lle gorau i gychwyn yw drwy gyfrifo eich gwariant bob mis gan ddefnyddio'r cynllunydd cyllideb ar dudalen 14. Ond dylech wneud y pethau hyn hefyd:

- Gwneud yn siŵr bod gennych chi ddigon i dalu'r biliau hanfodol.
- Meddwl ymlaen llaw a chynllunio ar gyfer misoedd drutach, megis y Nadolig neu wyliau ysgol.
- Cyllidebu ar gyfer eich incwm misol isaf, fel eich bod yn gallu talu eich costau hanfodol waeth beth sy'n digwydd.

Dysgwch ragor am ffyrdd o lunio cyllideb ar gyfer incwm afreolaidd yn **moneyhelper.org.uk/budgeting-for-irregular-income**

# 17. Mynd ar-lein

### Manteision mynd ar-lein

Rhaid i'r rhan fwyaf o bobl wneud a rheoli eu hawliad Credyd Cynhwysol ar-lein.

Os nad ydych yn gyfarwydd â chyfrifiaduron neu ddim yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio, mae nawr yn amser delfrydol i chi ddysgu a gwella'r sgiliau hynny.

### Gallwch arbed arian trwy fod ar-lein.

Gallwch ganfod llawer o ffyrdd o arbed arian ar filiau a gwariant ar-lein.

Mae hefyd yn hawdd cymharu'r bargeinion gorau ar gyfer nwy, trydan, ffonau symudol, band llydan, yswiriant, siopa mewn archfarchnad a phetrol. Ac mae nifer o wefannau'n cynnig arian yn ôl neu dalebau arian i ffwrdd.

Dysgwch ragor am ddefnyddio gwefannau cymharu ar-lein yn **moneyhelper.org.uk/price-comparison**

### Dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur

Ewch i'r mannau hyn i glywed rhagor am hyfforddiant am ddim:

- Ffoniwch neu ymwelwch â'ch llyfrgell leol am gymorth ar sut i fynd ar-lein.
- Gofynnwch i'ch cynghorydd Canolfan Byd Gwaith neu anogwr gwaith
- Dewch o hyd i gefnogaeth sgiliau digidol am ddim yn eich ardal drwy ffonio'r Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol ar 0800 100 900
- Ewch i'r Good Things Foundation yn **goodthingsfoundation.org** i ddod o hyd i'ch canolfan hyfforddi agosaf
- Mae Learn My Way yn cynnig cyrsiau am ddim ar ddefnyddio cyfrifiadur, pori'r we a chanfod gwaith ar-lein yn **learnmyway.com**

### Cymorth i fynd ar-lein

Mae rhai darparwyr gan gynnwys BT, Sky, EE, Virgin a Vodafone (yn ogystal â darparwyr lleol), yn cynnig cynlluniau cost isel i'ch helpu i fynd ar-lein os ydych yn cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau penodol eraill.

Mae rhagor o fanylion am ddarparwyr sy'n cynnig y pecynnau hyn ar **ofcom.org.uk/phones-telecoms-and-internet/advice-for-consumers/costs-and-billing/social-tariffs**

Mae TalkTalk yn cynnig pecyn band eang chwe mis heb ei gapio i bobl sy'n chwilio am waith, heb unrhyw gontract na gwiriad credyd.

Gallwch gael taleb drwy eich anogwr gwaith.

### Cymorth gyda biliau rhyngrwyd

Mae Cronfa Ddata Genedlaethol y DU yn cynnig data rhyngrwyd ffôn symudol am ddim am hyd at 12 mis i bobl sy'n methu ei fforddio ac sydd hefyd ag anghenion ychwanegol. Dysgwch ragor yn **goodthingsfoundation.org/national-databank**

# 18. Cysylltiadau defnyddiol

### HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac wedi'i gefnogi gan y Llywodraeth i helpu pobl i wneud y gorau o'u harian drwy roi arweiniad diduedd ar bensiynau ac arian i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

I gael arweiniad diduedd ar bensiynau am ddim neu ateb i unrhyw ymholiadau pensiwn, gallwch gysylltu â ni drwy ffonio:

Arweiniad ar arian
**0800 138 7777**
Llun - Gwe 8am i 6pm
**+44 20 3553 2279**
os ydych y tu allan i'r DU

Arweiniad ar bensiynau
**0800 011 3797**
Llun - Gwe 9am i 5pm
**+44 20 7932 5780**
os ydych y tu allan i'r DU

Neu ewch i **moneyhelper.org.uk/cy**

### Gwe-sgwrs:

**moneyhelper.org.uk/moneychat**

**moneyhelper.org.uk/pensionschat**

### WhatsApp:

**+44 7701 342744**
(arweiniad ar arian)

Ymunwch â'n **cymunedau ar-lein** i gael cefnogaeth: **moneyhelper.org.uk/online-communities**

I gael cymorth arbenigol gyda budd-daliadau ac unrhyw gwestiynau am eich hawliad, siaradwch â'r sefydliadau hyn.

### Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol

Ffôn: 0800 328 5644
Ffôn testun: 0800 328 1344
Dydd Llun i Ddydd Gwener, 8am - 6pm Ar gau ar wyliau banc a gwyliau cyhoeddus.
Mae galwadau am ddim.

### Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth

Ffôn: 0800 144 8 444
Ffôn testun: 18001 0800 144 8 444

### Dewch o hyd i arbenigwr budd-daliadau yn lleol i chi

**advicelocal.uk**

### Cyngor ar Bopeth

Llinell gyngor: 03444 111 444
Ffôn testun: 03444 111 445

### Advicelink Cymru

Ffôn: 0800 702 2020
Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9am - 5pm

### Shelter

Ffôn: 0808 800 4444
Dydd Llun i Ddydd Gwener, 8am - 8pm
Penwythnosau 9am i 5pm.
**sheltercymru.org.uk**

### Turn2Us

**advicefinder.turn2us.org.uk**
**grants-search.turn2us.org.uk**

### Sgiliau ar-lein

Y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol
0800 100 900

Rhwydwaith Canolfannau Ar-lein
**onlinecentresnetwork.org**

Learn My Way
**learnmyway.com**

**Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau**

## Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

## Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

## Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

**Credyd Cynhwysol – rheoli eich arian yng Nghymru a Lloegr** yw un o'r canllawiau sydd ar gael gan HelpwrArian. Mae'r Cyhoeddiad hwn ar gael yn y Saesneg. I weld hwn a'n hystod gyfan o ganllawiau, ac i ofyn am gopïau, ewch i **moneyhelper.org.uk/free-printed-guides**

**HelpwrArian***

Arweiniad ar arian **0800 138 7777**
Llun - Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau **0800 011 3797**
Llun - Gwe 9am i 5pm

Typetalk **1800 1 0800 915 4622**
Llun - Gwe 8am i 6pm

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan **moneyhelper.org.uk/cy**

Helpwr Arian Budd-daliadau

CYMYSGEDD
Papur o ffynonellau rhesymol
FSC® C003270
FSC www.fsc.org

Os hoffech y canllaw hwn mewn Braille, print mawr neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2024). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

*Mae galwadau am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

© **MoneyHelper** Ebrill 2024
Cyf: GRFUCIEAW_Apr24_Ed2_Eng